# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 22/06/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru Wledig

**C11 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yng Nghymru wledig? OAQ(3)2965(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion iechyd eu cymunedau lleol. Mae'r cynllun iechyd gwledig yn nodi cyfleoedd ar gyfer cryfhau'r mynediad i wasanaethau gofal iechyd a bydd yn cael cefnogaeth y gronfa arloesi iechyd gwledig.

### Camddefnyddio Alcohol

**C12 Mohammad Asghar:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch camddefnyddio alcohol yng Nghymru? OAQ(3)2955(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ysgrifennodd Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn San Steffan yn ddiweddar am amryw o faterion, gan gynnwys camddefnyddio alcohol.

### Cefnogi'r Economi Wledig

**C13 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi'r economi wledig? OAQ(3)2966(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi economi Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Er bod ganddi rai nodweddion unigryw mae'n rhaid i'r economi wledig gael ei gweld fel rhan o'r economi gyfan ac mae ystod o raglenni'n cael eu cyflwyno i gefnogi cynaliadwyedd economi Cymru yn y dyfodol.

### Cyllideb ar sail Rhyw yng Nghymru

**C14 Christine Chapman:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllidebu ar sail rhyw yng Nghymru? OAQ(3)2959(FM)

**Y Prif Weinidog:** Rhaid dyrannu arian cyhoeddus yn y ffordd sy'n diwallu orau anghenion dinasyddion Cymru. Yr ydym wedi ymrwymo i roi terfyn ar wahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal drwy ein polisïau a'n rhaglenni.

### Gwasanaethau Ieuenctid

**C15 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygiad gwasanaethau ieuenctid ledled Cymru? OAQ(3)2952(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gwasanaethau ieuenctid yn cynnig cyfleoedd datblygu personol pwysig i bobl ifanc, ac yr wyf yn awyddus i weld y rhain yn cael eu hymestyn er mwyn i

gymaint o bobl ifanc â phosibl fanteisio arnynt. Drwy ddatblygu a gweithredu ein polisïau, a drwy gydweithio â'n partneriaid, yr ydym wedi ymrwymo i wella ansawdd gwasanaethau ieuenctid a'u gwneud yn fwy hygyrch.